

Cyngor Trydydd Sector Caerdydd

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol



7. Dod o hyd i arian a'i gael

7.13 Cydweithio i godi incwm

Cipolwg

Gall mudiadau'r trydydd sector gydweithio i greu incwm mewn sawl gwahanol ffordd, o drefnu digwyddiadau codi arian, annog cyfraniadau untro a rhoi'n rheolaidd, i dendro neu fasnachu ar y cyd. Bwriad y daflen wybodaeth hon yw rhoi canllaw rhagarweiniol i fudiadau'r trydydd sector sy'n ystyried a oes ffyrdd y gallent greu incwm drwy weithio ag eraill.

Pam cydweithio?

Yn aml, mae diffyg gallu neu adnoddau'n gallu atal mudiadau llai y trydydd sector rhag dilyn hynt gweithgareddau newydd neu wahanol i greu incwm. Mae gweithio ag eraill yn cynnig cyfleoedd i gronni adnoddau neu arbenigedd, cyrraedd mwy o bobl a chreu mwy o gyhoeddusrwydd, rhannu costau a defnyddio gwahanol ddulliau ar gyfer codi arian.

Dyma rai o'r manteision:

- **Defnyddio adnoddau'n well** – drwy ddefnyddio adnoddau sydd eisoes yn bodoli yn fwy effeithlon a llai o ddyblygu ymdrech yn ddianghenraid.
- **Mwy o arbenigedd** – drwy rannu ac adeiladu ar sgiliau a gwybodaeth pob un o'r partner fudiadau.
- **Gall rhoddwyr gefnogi amrywiaeth o achosion** – mae cydweithio rhwng mudiadau'r trydydd sector yn gallu bod yn atyniadol iawn i'r cyhoedd. Gall hyn olygu mynediad at gronfa newydd o gefnogwyr.
- **Gwell cyfleoedd i roi cyhoeddusrwydd** – drwy gyfuno gallu marchnata a llwybrau hyrwyddo pob partner.
- **Mwy o allu i godi arian neu well cwmpas daearyddol** – cyrraedd mwy o bobl drwy rannu sgiliau ac adnoddau sydd eisoes yn bodoli.

Heriau

Fodd bynnag, mae cymhlethdodau a rhwystrau'n codi wrth gydweithio, ac mae unrhyw sefyllfa lle gwelir gweithio ar draws ffiniau mudiadau yn gallu peri risg.

Dyma'r heriau posib:

- **Perthynas** – Mae rheoli perthynas rhwng partneriaid a sicrhau cyfathrebu da yn hanfodol.
- **Buddsoddi** – Mae partneriaid sy'n buddsoddi amser neu adnoddau yn anghymesur yn gallu achosi problemau. Mae hyd yn oed tybio nad yw partneriaid yn tynnu eu pwysau yn gallu arwain at anawsterau.
- **Adnoddau** – Dylid cytuno ar y cychwyn ynghylch dosbarthu elw, neu unrhyw asedau neu eiddo deallusol a gynhyrchir yn sgil y cydweithio.
- **Risg** – Mae angen mynd i'r afael â llawer o risgiau cyfreithiol ac ariannol, yn ogystal â risgiau megis bod brand, gwerthoedd neu gefnogwyr yn y fantol. Dylid adnabod risgiau, eu rheoli a'u rhannu'n gymesur.
- **Cefnogwyr** – A allai cydweithio olygu colli cefnogwyr presennol, er enghraifft drwy fod mewn cysylltiad â mudiad arall sydd â gwahanol werthoedd?
- **Disgwyliadau** – gall problemau godi os oes gan bartneriaid wahanol ddisgwyliadau neu lefelau ymrwymiad.
- **Troi sylw oddi wrth weithgareddau craidd** – A wnaiff treulio amser a rhoi ymdrech i gydweithio droi eich sylw oddi wrth eich gwasanaethau presennol, neu hyd yn oed rhoi'r rheini mewn perygl?

Gwahanol ffyrdd o gydweithio i godi incwm

- **Tendro ar y cyd** – Mae tendro yn broses o fidio er mwyn cyflenwi nwyddau neu wasanaethau. Mae graddfa ambell gontract cyflenwi gwasanaeth wedi gwneud i lawer o fudiadau'r trydydd sector feddwl am sefydlu consortia at ddibenion bidio a chyflenwi gwasanaethau. Ceir cyfleoedd i ennill contractau cyflenwi gwasanaethau drwy gonsortiw m sy'n cyrraedd mwy o bobl a chynnig mwy o arbenigedd.
- **Masnachu** – Ystyr masnachu yw codi am nwyddau a gwasanaethau. Yn aml, mae sefydlu gweithgaredd masnachu newydd yn gofyn am fuddsoddiad sylweddol o ran sgiliau ac adnoddau. Gall mudiadau'r trydydd sector gydweithio i gyfuno eu harbenigedd neu i rannu costau sydd ynghlwm wrth gychwyn menter fasnachu newydd.
- **Rhoi treth-ffeithiol** – Mae rhoi rhoddion i elusennau'n gallu bod yn dreth-ffeithiol. Mae Cymorth Rhodd, er enghraifft, yn golygu bod elusennau'n gallu adhawlio'r dreth sydd eisoes wedi'i thalu gan roddwr ar eu rhodd. Mae Rhoi drwy'r Gyflogres yn golygu bod rhoddion elusennol yn cael eu tynnu o gyflog gros gweithwyr cyn tynnu treth. Mae cydweithio yn cynnig cyfleoedd i gyrraedd cefnogwyr newydd, ac mae consortiw m Rhoi drwy'r Gyflogres yn rhoi ffordd i roddwyr gefnogi amrywiol achosion sy'n cydweddu, er enghraifft, mudiadau yn gweithio mewn maes penodol, neu gyda grŵp cleient penodol, megis plant.
- **Apeliadau** – Un o fanteision amlwg gweithio gyda mudiadau partner sydd o'r un anian at ddibenion hyrwyddo apêl yw pan fydd argyfwng neu drychineb yn digwydd

nid oes yn rhaid i roddwyr ddewis rhwng asiantaethau. Gall mudiadau gydlyn eu gweithgareddau a chronni eu hadnoddau i sicrhau mwy o gyhoeddusrwydd. Gall rhoddion i apêl fod yn gymwys i gael gostyngiad yn y dreth drwy gynllun Cymorth Rhodd

- **Cymynroddion / Er cof** – Mae cymynroddion yn ffynhonnell sylweddol o incwm i lawer o elusennau. Nid yw oes raid talu treth etifeddu ar gymynrodd i elusen. Nid oes llawer o bobl yn gadael cymynrodd i elusen yn eu hewyllys, felly gall elusennau gydweithio i hyrwyddo rhoi drwy gymynrodd ymysg cynulleidfa eang. Gall clymbleidiau weithio hefyd i roi hwb i godi arian *er cof*: rhoddion a roddir i gofio am farwolaeth rhywun.
- **Codi arian ar y cyd** – gall mudiadau gydweithio'n anffurfiol ar ystod eang o gynlluniau codi arian, o drefnu digwyddiadau codi arian i hyrwyddo rhoi'n rheolaidd. Er enghraifft, byddai cyrraedd mwy o bobl drwy gydweithio yn arwain at gefnogaeth sylweddol i ddigwyddiad.

Materion i'w hystyried

Dyma rai o'r pris ystyriaethau ar gyfer cydweithio i godi incwm:

- **Rhannu disgwyliadau** - Dylai mudiadau fod yn glir ynghylch yr hyn y maent am ei gael gan eu partneriaid, yr hyn y mae eu partneriaid am ei gael ganddynt hwy, a beth yw eu ffiniau.
- **Cydraddoldeb** – Pa mor deg yw'r cydweithio? A fydd corff arweiniol ac atebol neu ai partneriaeth gyfartal fydd y corff cydweithiol?
- **Strwythur** – A fydd mudiadau yn cynnal eu hunaniaeth ei hunain, neu a yw'r risg sydd ynghlwm yn ddigon i gyfiawnhau sefydlu endid cyfreithiol newydd ar gyfer y gwaith?
- **Dyrannu arian** – Sut caiff yr elw ei ddsbarthu? Mae rhai prosiectau cydweithio'n dewis rhannu'r elw yn gyfartal rhwng pob partner, tra bo eraill yn dewis rhannu adnoddau yn ôl fformiwla y cytunwyd arni.

Beth all fod o gymorth?

- **Cytundebau ysgrifenedig** – Ym mhob un math o gydweithio ac eithrio'r rhai symlaf un, mae'n werth llunio cytundeb cydweithio ysgrifenedig. Dylai'r ddogfen hon bennu telerau'r cydweithio, gan gynnwys gwybodaeth am sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud; a sut caiff incwm a enillir ei rannu. Dylai'r cytundeb hwn hefyd gynnwys darpariaeth ar gyfer datrys anghydfodau a sut gall partneriaid dynnu'n ôl o'r prosiect. Dylai'r cytundeb fod yn gymesur i'r risg a'r adnoddau sydd ynghlwm wrth y cydweithio. Er y bydd pob cytundeb yn wahanol, gallai penawdau cyffredin gynnwys:
 - Cyflwyniad, gan gynnwys enwau partneriaid, hyd a datganiad o ddiben

- Rolau a chyfrifoldebau gan gynnwys penderfynu
 - Cyllido a chyllid
 - Llinellau cyfathrebu
 - Monitro ac adrodd
 - Darpariaeth ar gyfer gwneud newidiadau
 - Strategaeth ymadael
 - Datrys anghydfod
 - Manylion cyswllt a llofnodion i ddangos eich bod yn mabwysiadu'r cytundeb
- **Adeiladu ar y gorau ym mhob mudiad** – Mae'n bosib bod gan bartneriaid sgiliau gwahanol ond ategol, felly wrth gydweithio dylid ceisio cydnabod ac adeiladu ar gryfderau a phrofiad pob mudiad.
 - **Grŵp llywio** - Yn dibynnu ar faint a natur y prosiect, gellid cynnull grŵp llywio, gyda chynrychiolaeth gan bob partner, er mwyn sicrhau bod strwythurau penderfynu clir ar waith a bod y cydweithio ar y trywydd cywir.
 - **Ymddiriedaeth a chyfathrebu** – Mae datblygu perthynas waith dda yn gallu cymryd amser, a dylai fod ymrwymiad i sicrhau deialog a chyfathrebu effeithiol, yn arbennig yn y camau cynnar pan mae ymddiriedaeth yn dal i gael ei meithrin.
 - **Rhannu nodau** – Dylai pob partner gytuno ar nodau'r cydweithio. Hefyd, gall fod yn fuddiol rhoi eglurhad pellach ynghylch beth y mae pob mudiad yn barod i ymrwymo iddo, a'i ffiniau nad yw'n fodlon mynd y tu hwnt iddynt.
 - **Diwylliannau mudiadau** – Un broblem gyffredin sy'n codi wrth gydweithio yw cytgordio gwahanol ddiwylliannau o fewn mudiadau, er enghraifft, gwahanol arferion gweithio neu berthynas gyda defnyddwyr gwasanaeth. Gall diwylliannau cydnaws helpu i sicrhau bod prosiectau cydweithio'n bwrw ymlaen yn ddiraffferth.

Rhagor o wybodaeth

Taflenni gwybodaeth

- 7.6.1 Digwyddiadau codi arian
- 7.6.2 Cymynroddion codi arian
- 7.7.1 Cyflwyniad i dendro
- 7.8 Masnachu
- 7.10 Rhoi treth-effeithiol
- 7.10.3 Consortia rhoi drwy'r gyflogres

Y Comisiwn Elusennau

Rheoleiddiwr a chofrestrydd elusennau yng Nghymru a Lloegr. Mae'r cyhoeddiadau canlynol yn berthnasol iawn:

- Mae CC20 yn rhoi gwybodaeth am godi arian
- Mae CC34 yn darparu canllawiau am gydweithio ac uno
- Mae CC35 yn rhoi manylion yr ochr gyfreithiol ynghylch ymddiriedolwyr, masnachu a threth.
- Mae CC37 yn darparu canllawiau i elusennau am gyflenwi gwasanaeth cyhoeddus
- Mae CC40 yn darparu gwybodaeth am apeliadau trychinebau.
- *Dewis Cydweithredu: Eich helpu chi i lwyddo*

Ffôn: 0845 3000 218

www.charitycommission.gov.uk

Cyllid a Thollau EM

Pwynt cyfeirio ar gyfer gwybodaeth am dreth a TAW ar gyfer elusennau ynghyd â gwybodaeth am ad-daliadau treth ar gyfer cyfraniadau elusennol.


Ffôn: 08453 02 02 03

www.hmrc.gov.uk/charities

Ymwadiad

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

<p>Cyngor Trydydd Sector Caerdydd <i>Tŷ Baltic, Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd, CF10 5FH</i> Elusen Gofrestredig: 1068623</p> <p>Ffôn: 029 2048 5722 enquiries@c3sc.org.uk Ffacs: 029 2046 4196 www.c3sc.org.uk</p>	 <p>WcVA CgGC</p>
<p>Cynhyrchwyd gan CGGC, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli Wedi ei ddiweddaru: 01/07/2011</p>	<p>Ffôn: 0300 111 0124 www.wcva.cymru</p>